Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 26.10.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# GWOBRAU: Gwobrau Busnes Daily Post 2022

Mae Gwobrau Busnes Daily Post, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, yn dychwelyd unwaith eto i ddathlu ac anrhydeddu busnesau arloesol a gwydn gogledd Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 5:00pm ar 30 Hydref 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://dailypostbusinessawards.co.uk/2022/en/page/home

# DIGWYDDIAD: Curiad Arloesi 27 Hydref 2022

Cynigir crynodeb o newyddion ar Gymorth Arloesi yn y weminar yma i'w gynnal ar 27 Hydref 2022 (10:00am-11:00am), yn cynnwys y diweddaraf o Innovate UK, Defence and Security Accelerator (DASA), Cystadleuaeth Cyllid Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF) a Chymru Ystwyth (WEFO). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3DqMejQ

# ARIANNU: Cronfa Sgiliau Creadigol

Bwriad Cronfa Sgiliau Creadigol Llywodraeth Cymru yw helpu i ddatblygu'r dalent bresennol a'r genhedlaeth nesaf o dalent ym meysydd teledu a ffilm, cerddoriaeth a chynnwys digidol. Mae'r Gronfa Sgiliau Creadigol ar agor am geisiadau hyd at 7 Tachwedd 2022, ac mae manylion pellach, gan gynnwys sut i ymgeisio a chanllawiau, ar gael ar:

https://www.cymrugreadigol.cymru/cy/cronfa-sgiliau-creadigol

# YMGYRCH: Wythnos Masnach Ryngwladol 2022

Bydd Wythnos Masnach Ryngwladol, a gynhelir rhwng 31 Hydref a 4 Tachwedd 2022, yn arddangos cyfres newydd sbon o ddigwyddiadau a gynlluniwyd i helpu busnesau o bob siâp a maint i gynyddu eu potensial byd-eang. Bydd busnesau'n gallu darganfod mwy am fentrau Strategaeth Allforio allweddol, fel y Gwasanaeth Cymorth Allforio a'r Academi Allforio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.events.great.gov.uk/website/8822/

# DIGWYDDIAD: Rhaglen ARFOR– Cyfleoedd Tendro | Sesiwn Cwestiynau ag Atebion 3 Tachwedd 2022

Mae ARFOR yn fenter ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio

mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith. Mae Rhanbarth ARFOR yn cynnal sesiwn cwestiynau ag atebion a'r 3 Tachwedd 2022 (1:00pm–3:00pm) trwy MS Teams, fydd yn gyfle i rhannu gwybodaeth am y cyfleoedd tendro fydd a'r gael a'r draws y Rhanbarth fel rhan o becynnau gwaith Rhaglen ARFOR. I gofrestru neu i ofyn cwestiynau penodol e-bostiwch: gwybodaeth@rhaglenarfor.cymru. Am wybodaeth cyffredinol ac ar gyfer dolenni i'r cyfleoedd tendro ewch i:

https://www.rhaglenarfor.cymru/

## CYMORTH: Cynllun Help to Grow : Digital

Mae Help to Grow: Digital yn gynllun ledled y DU i helpu busnesau bach a chanolig (BBaChau) i fabwysiadu technolegau digidol sydd wedi'u profi fel rhai sy'n cynyddu eu cynhyrchiant, gan gynnig cyngor diduedd ac am ddim ar sut gall technoleg helpu eu busnes. Hefyd, gall busnesau cymwys gael 50% i ffwrdd, hyd at £5,000, o feddalwedd Cyfrifeg Ddigidol, Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid ac e-Fasnach sydd wedi'i gymeradwyo. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.learn-to-grow-your-business.service.gov.uk/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru